# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Hydref 2019

Amser: 13.18 - 15.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5627

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru<br>Peter Ryland, WEFO<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Richard Harries |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Lowri Barrance (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion yn y llythyr ar oruchwyliaeth reoleiddio ar Gymdeithasau Tai.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynglŷn â chyhoeddi'r Adroddiad ar Dlodi Tanwydd, ac at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch Adroddiad y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion.

2.4 Gofynnodd y Pwyllgor am sesiwn friffio fanwl ar y Tueddiadau o ran Gwariant Cyhoeddus.

### 2.1 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (3 Hydref 2019)

### 2.2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion

### 2.3 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tlodi Tanwydd

### 2.4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

### 2.5 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tueddiadau o ran Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999-00 a 2017-18

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor yr ail sesiwn graffu gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

3.2 Gofynnodd y Cadeirydd ar beth y bydd y benthyciad o £21.2 miliwn yn cael ei wario ym Maes Awyr Caerdydd ynghyd ag amserlen ad-dalu, yn sgil y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynharach heddiw. Cytunodd Andrew Slade i ysgrifennu gyda manylion pellach.

3.3 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y trafodaethau dwyochrog a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd ynghylch Cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig;
- Rhoi rhagor o wybodaeth am raddfa'r golled yn 2018-19 ynghylch stociau cyffuriau sydd wedi dod i ben ac archwilio i a allai'r cyffuriau fod wedi cael eu defnyddio yn rhywle arall cyn i'w dyddiad ddod i ben, gan gynnwys pam mae'r ffigurau ar gyfer cyffuriau a ddilëwyd yn uwch na ffigurau'r blynyddoedd blaenorol;
- Anfon rhagor o fanylion ynglŷn â grant nofio am ddim Llywodraeth Cymru i bobl dros 60 oed;
- Anfon ragor o wybodaeth unwaith y bydd yr adroddiad o'r gwerthusiad o'r peilot cyllido hyblyg wedi'i lunio; ac
- Egluro pam mai 41 y cant yn unig o'r cyllid a ddyrannwyd i'r Cynllun Datblygu Gwledig a gafodd ei wario, fel yr oedd ym mis Awst 2019.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.